



**Pam rydyn
ni'n
cofrestru
pobl sy'n
gweithio
ym maes
gofal
cymdeithasol**

Rydyn ni'n cofrestru pobl i wneud yn siwr bod ganddyn nhw'r sgiliau a'r gwerthoedd i ddarparu gofal a chefnogaeth dda, i helpu i gadw'r gyhoedd yn ddiogel.

Cyhoeddwyd gyntaf: 31 July 2026

Diweddariad olaf: 9 October 2026

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i

<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydyn-nin-cofrestru-pobl-syn-gweithio-ym-maes-gofal-cymdeithasol> am y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am pam rydyn ni'n cofrestru pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydyn ni'n cofrestru pobl mewn rolau penodol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i helpu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Pan fydd rhywun yn ymuno â'n Cofrestr, mae'n golygu eu bod yn fedrus ac yn gymwys i wneud eu gwaith, a bod ganddyn nhw'r gwerthoedd cywir i ddarparu gofal a chefnogaeth dda.

Rhaid i bawb ar ein Cofrestr hefyd ddilyn ein [Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol](#). Mae hyn yn golygu eu bod yn cytuno i weithio'n unol â safonau ymddygiad penodol.

Dysgwch fwy am [bwy sydd angen cofrestru](#).

Pam fod cofrestru'n bwysig

Mae cofrestru o fudd i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a'r cyhoedd ehangach.

- Mae'n **meithrin ymddiriedaeth a hyder** – rhaid i bawb ar ein Cofrestr fod â'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyfforddiant cywir i wneud eu gwaith
- Mae'n helpu i **gadw pobl yn ddiogel** trwy amddiffyn hawliau pobl a gwneud yn siŵr eu bod yn cael llais
- Mae'n **cefnogi pobl i fod yn annibynnol** ac amddiffyn eu hunain
- Mae'n **amddiffyn y cyhoedd**. Os nad yw rhywun yn addas i ymarfer, gellir ei dynnu oddi ar y Gofrestr fel na all weithio mewn rôl gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru mwyach.

Manteision eraill i weithwyr cofrestredig

☐ Mae gweithwyr yn rhan o Gofrestr broffesiynol y gall y cyhoedd ei gweld.

☐ Maen nhw'n cael eu cefnogi gan eu cyflogwyr i gwblhau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

☐ Gallan nhw gael mynediad at gymorth, gwybodaeth ac adnoddau i'w helpu yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r manteision hyn yn helpu gweithwyr i ddatblygu'n broffesiynol a darparu gofal o ansawdd uchel.

Dysgwch fwy am [sut rydyn ni'n cefnogi gweithwyr cofrestredig](#).

Mwy o wybodaeth

Eisiau gwybod mwy am ofal cymdeithasol yng Nghymru a sut mae'n gweithio?

[Edrychwch ar ein canllaw i ofal cymdeithasol](#)